Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 04.02.26 |
| **Pwnc / Subject:** | Ymateb ynghylch Darparu diwrnodau HMS (hyfforddiant mewn swydd) yng Nghymru |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

Mae Estyn yn cefnogi'n gyffredinol gynnig Llywodraeth Cymru i gadarnhau darpariaeth chwe diwrnod HMS y flwyddyn academaidd ac i gryfhau'r canllawiau ar eu defnydd. Mae tystiolaeth arolygu a thematig Estyn yn dangos yn gyson bod dysgu proffesiynol o ansawdd uchel yn allweddol ar gyfer gwella addysgu, arweinyddiaeth a deilliannau dysgwyr, yn enwedig yn ystod cyfnod o ddiwygio systemig sylweddol.

Mae ysgolion yng Nghymru yn parhau i weithredu mewn cyd-destun o newid sylweddol, gan gynnwys gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, diwygiadau yn y maes Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), a chyflwyno cymwysterau newydd yn raddol. Yn y cyd-destun hwn, mae amser gwarchodedig ar gyfer dysgu proffesiynol, cynllunio a chydweithio yn hanfodol os yw ymarferwyr am wreiddio diwygiadau'n effeithiol ac yn gynaliadwy.

Fodd bynnag, mae tystiolaeth Estyn hefyd yn dangos bod effaith diwrnodau HMS yn amrywio'n sylweddol rhwng ysgolion. Lle mae HMS fwyaf effeithiol, mae'n canolbwyntio'n glir ar wella addysgu a dysgu, yn seiliedig ar dystiolaeth, yn gynaliadwy ac yn rhan o gynllun dros amser, ac wedi'i alinio'n agos â blaenoriaethau gwella ysgolion. I'r gwrthwyneb, lle nad yw HMS yn cael ei gydlynu'n strategol neu'n canolbwyntio gormod ar gydymffurfiaeth, mae ei effaith ar arferion dosbarth a deilliannau dysgwyr yn fwy cyfyngedig.

Felly, mae Estyn yn cefnogi cyfeiriad cyffredinol y cynigion, gan bwysleisio pwysigrwydd eglurder pwrpas, tegwch a goruchwyliaeth arweinyddol gref er mwyn sicrhau bod amser ychwanegol yn arwain at welliannau ystyrlon i ddysgwyr.

Negeseuon allweddol a galwadau polisi:

- Mae cadarnhau chwe diwrnod HMS yn darparu amser gwerthfawr wedi'i warchod, ond mae'r effaith yn dibynnu ar ansawdd a ffocws, nid ar faint o oriau yn unig.
- Dylai'r canllawiau barhau i flaenoriaethu dysgu ac addysgu, gan ganiatáu barn broffesiynol i ymateb i gyd-destun lleol.

- Dylid annog a galluogi cydweithio rhwng ysgolion a chlystyrau, ond nid ei orfodi'n anhyblyg.
- Mae cyfathrebu clir â rhieni a gofalwyr yn hanfodol i liniaru tarfu a chynnal hyder.
- Rhaid cefnogi dysgu proffesiynol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog er mwyn sicrhau tegwch ar draws y system.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Q1: A ydych yn cytuno y dylid darparu 6 diwrnod HMS bob blwyddyn o 2026 i 2027 drwy newid dogfen tâl ac amodau athrawon ysgol (Cymru)?**

**Cytuno** Anghytuno Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

**Sylwadau ategol**

Mae Estyn yn cytuno â'r cynnig i ffurfioli darpariaeth chwe diwrnod HMS y flwyddyn. Mae hyn yn adlewyrchu'r realiti presennol bod disgwyliadau ar ysgolion a'r gweithlu addysg wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig yng nghyd-destun diwygio'r cwricwlwm, diwygio ADY a newidiadau i gymwysterau.

Mae cadw'r chweched diwrnod HMS hefyd yn rhoi sefydlogrwydd a sicrwydd i ysgolion wrth gynllunio eu calendr proffesiynol tymor canolig a thymor hwy. Byddai dileu'r diwrnod ychwanegol yn risgio tanseilio cynnydd sydd eisoes wedi'i wneud o ran rhoi amser penodol i staff ymgysylltu â dysgu proffesiynol a chynllunio ar y cyd.

Ar yr un pryd, mae Estyn yn pwysleisio bod gwerth y trefniant hwn yn dibynnu ar y modd y caiff yr amser ei ddefnyddio. Er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol ar ddysgwyr, mae'n hanfodol bod ysgolion yn defnyddio'r amser hwn yn fwriadol, yn strategol ac mewn ffordd sy'n cefnogi blaenoriaethau gwella clir megis gwella addysgu a dysgu.

**Q2: A ydych yn cytuno y dylid defnyddio diwrnodau HMS yn bennaf neu'n gyfan gwbl ar gyfer hyfforddiant, cynllunio a pharatoi mewn perthynas â'r dibenion a amlinellir (sy'n ymwneud ag ADY, y cwricwlwm ac asesu cymwysterau a blaenoriaethau cenedlaethol)?**

**Cytuno** Anghytuno Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

**Sylwadau ategol**

Mae Estyn yn cefnogi'r cynnig hwn gan ei fod yn rhoi eglurder ynghylch prif ddiben diwrnodau HMS ac yn helpu i sicrhau cysondeb ar draws y system. Mae ffocysu'r diwrnodau hyn ar feysydd fel y cwricwlwm, asesu, cymwysterau, ADY a blaenoriaethau cenedlaethol yn helpu ysgolion i alinio dysgu proffesiynol â disgwyliadau polisi ehangach.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nad yw'r term "hyfforddiant" yn cael ei ddehongli'n rhy gul. Er mwyn bod yn effeithiol, dylai diwrnodau HMS ymateb i anghenion a chyd-destun darparwyr unigol a chaniatáu amser ar gyfer ystod eang o weithgareddau dysgu proffesiynol, gan gynnwys cyd-gynllunio, trafodaeth broffesiynol, myfyrio ar arfer a datblygu dulliau newydd o weithio. Mae'r gweithgareddau hyn yn rhan annatod o baratoi staff i ymateb i newid a gwella profiadau dysgwyr.

**Q3: Rydym yn cynnig newid y canllawiau i gynghori bod ysgolion yn cydweithio ag ysgolion eraill ac awdurdodau lleol i gydlynu amseru diwrnodau HMS ar draws grwpiau, clwstwr neu awdurdodau lleol. Mae hyn er mwyn lleihau aflonyddwch i deuluoedd sydd â phlant mewn mwy nag un ysgol ac i alluogi gwell cydweithio rhwng ysgolion lle bo modd. Bydd hyn yn cael ei gydlynu rhwng penaethiaid ac awdurdodau lleol. A ydych yn cytuno?**

**Cytuno** Anghytuno Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

**Sylwadau ategol**

Mae Estyn yn cytuno â'r cynnig hwn gan ei fod yn cynnig manteision clir i deuluoedd, yn enwedig y rhai sydd â phlant mewn mwy nag un ysgol. Gall cydlynu amseriad HMS helpu i leihau'r heriau ymarferol sy'n gysylltiedig â gofal plant ac i wella'r profiad cyffredinol i rieni a gofalwyr.

Yn ogystal, mae cydamseru diwrnodau HMS yn creu cyfleoedd ystyrlon i ysgolion weithio gyda'i gilydd ar faterion cyffredin, megis cynllunio cwricwlaidd, pontio dysgwyr neu ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol. Mae hefyd yn cynnig cyfle i ysgolion Cymraeg a dwyieithog i gydweithio a rhannu arfer. Fodd bynnag, mae Estyn yn cydnabod na fydd hyn bob amser yn ymarferol ym mhob cyd-destun. Dylai'r canllawiau felly annog cydlynu lle bo modd, tra'n parchu gwahaniaethau lleol ac anghenion unigol ysgolion.

**Q4: Rydym yn cynnig newid y canllawiau i ofyn i ysgolion gyfathrebu'r diben a'r amseru ar gyfer eu hyfforddiant gydag awdurdodau lleol a rhieni neu ofalwyr ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. A ydych yn cytuno?**

**<u>Cytuno</u>** Anghytuno Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

**Sylwadau ategol**

Mae Estyn yn cefnogi'r cynnig hwn gan ei fod yn hyrwyddo tryloywder ac yn helpu i feithrin ymddiriedaeth rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a theuluoedd. Mae cyfathrebu cynnar yn galluogi rhieni a gofalwyr i gynllunio ymlaen llaw ac i ddeall pam fod diwrnodau HMS yn angenrheidiol.

Mae cyfathrebu diben hefyd yn rhoi cyfle i ysgolion egluro sut mae'r dysgu proffesiynol a gynhelir ar y diwrnodau hyn yn gysylltiedig â gwella profiadau a deilliannau dysgwyr. Mae hyn yn helpu i atgyfnerthu'r neges bod diwrnodau HMS yn fuddsoddiad uniongyrchol yn ansawdd addysg. Fodd bynnag, bydd angen i'r canllawiau ganiatáu hyblygrwydd i ysgolion addasu'r diben pe bo angen, er enghraifft os yw tystiolaeth hunanwerthuso yn ystod y flwyddyn yn arwain at newid mewn blaenoriaethau.

**Q5: Rydym yn cynnig newid y canllawiau i gynghori nad yw ysgolion yn grwpio mwy na 2 ddiwrnod HMS gyda'i gilydd mewn bloc. A ydych yn cytuno?**

**<u>Cytuno</u>** Anghytuno Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

**Sylwadau ategol**

Mae Estyn yn cytuno mewn egwyddor. Mae dosbarthu dysgu proffesiynol ar draws y flwyddyn yn helpu i gynnal momentwm a chefnogi gwelliant cynaliadwy, gan alluogi ymarferwyr i gymhwyso, gwerthuso a mireinio eu dysgu dros amser. Mae hefyd yn lleihau'r effaith ar ddysgwyr.

**Q6: Rydym yn cynnig newid y canllawiau i gynghori nad yw ysgolion yn trefnu mwy na 2 ddiwrnod HMS fel sesiynau cyfnos o fewn y flwyddyn academaidd. A ydych yn cytuno?**

Cytuno **<u>Anghytuno</u>** Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

**Sylwadau ategol**

Er y gall sesiynau gwyll fod yn ddefnyddiol ar gyfer hyfforddiant penodol neu orfodol, nid ydynt bob amser yn addas ar gyfer gwaith sy'n ymwneud â datblygu addysgeg, cynllunio cwricwlwm neu ymarfer myfyriol. Felly, nid ydym yn cytuno â'r cynnig o 2 ddiwrnod HMS yn cael eu trefnu fel sesiynau gwyll gan y gall gor-ddibyniaeth ar sesiynau gwyll gyfyngu ar ddyfnder y dysgu proffesiynol a'r cyfleoedd ar gyfer cydweithio ystyrlon. Mae diwrnodau HMS llawn yn caniatáu i staff ymgysylltu'n llawn â'r cynnwys a gwneud y mwyaf o effaith dysgu proffesiynol.

**Q7: A ydych yn cytuno y dylai'r canllawiau bwysleisio bod o leiaf 4 diwrnod HMS yn cael eu defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf i ddarparu dysgu proffesiynol sy'n ymwneud â dysgu ac addysgu, yn unol â'r dibenion arfaethedig ar gyfer diwrnodau HMS mewn ysgolion? (Bydd hyn yn golygu na chaiff mwy na 2 ddiwrnod HMS eu defnyddio ar hyfforddiant nad yw'n ymwneud â dysgu ac addysgu.)**

**<u>Cytuno</u>** Anghytuno Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

**Sylwadau ategol**

Mae Estyn yn cefnogi'r pwyslais hwn yn gryf gan ei fod yn helpu i sicrhau bod prif ddiben diwrnodau HMS yn parhau i fod ar wella dysgu ac addysgu. Mae neilltuo'r mwyafrif o'r amser ar gyfer y maes hwn yn rhoi neges glir am flaenoriaethau ac yn lleihau'r risg y caiff amser HMS ei ddefnyddio'n bennaf ar faterion gweithredol neu weinyddol.

Mae hefyd yn darparu fframwaith clir i ysgolion wrth wneud penderfyniadau am gynnwys HMS, tra'n dal i ganiatáu gofod ar gyfer materion eraill sy'n angenrheidiol i weithrediad effeithiol ysgol.

**Q8: Beth yn eich barn chi fyddai effeithiau tebygol y cynnig hwn ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?**

**Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

**Sylwadau ategol**

Mae'r cynigion yn cynnig y potensial i gefnogi canlyniadau cadarnhaol i'r Gymraeg, yn enwedig pan ddefnyddir diwrnodau HMS i gryfhau addysgeg cyfrwng Cymraeg, dylunio cwricwlwm dwyieithog a hyder ymarferwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn broffesiynol. Mae'r anogaeth i amseru HMS ar yr un pryd ag ysgolion eraill hefyd yn cynnig cyfle i ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i gydweithio a rhannu arfer.

Fodd bynnag, mae Estyn yn nodi risg bosibl y gall mynediad anghyfartal at ddysgu proffesiynol cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel, yn enwedig mewn rhai rhanbarthau neu feysydd arbenigol, ehangu anghydraddoldebau presennol os na chaiff sylw rhagweithiol.

**Q9: Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r polisi arfaethedig er mwyn:**

**-sicrhau ei fod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg; neu**

**-liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

**Sylwadau ategol**

Mae Estyn yn argymell y dylai'r canllawiau:

- Annog yn benodol ddefnyddio diwrnodau HMS i ddatblygu capasiti a hyder staff i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog.
- Sicrhau mynediad teg at ddysgu proffesiynol drwy'r Gymraeg, gan gynnwys drwy ddarpariaeth genedlaethol a chydweithio rhanbarthol.
- Hyrwyddo cydweithio rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i rannu arfer effeithiol a meithrin capasiti'r system.

**Q10: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma:**

**Sylwadau ategol**

Mae Estyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd:

- Monitro effaith trefniadau HMS diwygiedig ar ansawdd addysgu a deilliannau dysgwyr, nid cydymffurfiaeth yn unig.

- Osgoi canlyniadau anfwriadol i ysgolion sy’n gwasanaethu cymunedau dan anfantais, lle gall cyfyngiadau capasiti gyfyngu ar ddefnydd effeithiol o HMS.
- Sicrhau cydlyniad rhwng disgwyliadau HMS a chanllawiau dysgu proffesiynol.

Yn ogystal, gallai’r ymgynghoriad hwn fod yn gyfle i ystyried ffyrdd mwy creadigol a chydlynol o drefnu amser ar gyfer dysgu proffesiynol, yn hytrach na dibynnu’n llwyr ar ddiwrnodau unigol wedi’u gwasgaru drwy’r flwyddyn. Gallai archwilio neu arbrofi gyda threfniadau sy’n darparu blociau mwy estynedig o amser gefnogi gwaith datblygu dyfnach, cydweithredol a chynaliadwy, a gwella effeithiolrwydd dysgu proffesiynol ar draws y system.

**Bod yn ddienw**

**Gall ymatebion i'r ymgynghoriad gael eu cyhoeddi. Bydd eich ymateb yn ddienw. Fodd bynnag, os hoffech i'ch enw gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'ch ymateb, rhowch x yn y blwch.**

**☑Rwy'n cytuno i'm henw gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'm hymateb i'r ymgynghoriad hwn.**